CEREBRAL PALSY CYMRU

# Adolygiad Blynyddol 2019 / 2020





“Mae Cerebral Palsy Cymru wedi cael effaith enfawr ar ein bywydau! Heb Cerebral Palsy Cymru, dwi ddim yn meddwl y byddai Arabella wedi cyrraedd lle mae hi heddiw – rydyn ni mor ddiolchgar iddyn nhw.”

Amanda, mam Arabella

# Neges y Cadeirydd

Roedd 2019-20 yn flwyddyn eithriadol i'n helusen am sawl rheswm. Yn y flwyddyn honno, dyfarnwyd grant hael tu hwnt i ni gan Lywodraeth Cymru, ac o ganlyniad rydym wedi llwyddo i wireddu uchelgais sydd wedi bod gennym ers amser hir - sef prynu canolfan blant newydd, fwy o faint, sydd â'r lle a'r potensial i'n galluogi i gynnig cymorth i ddwywaith y nifer o blant a theuluoedd y gallwn eu cefnogi. Roedd hyn yn gyffrous tu hwnt, a bydd yn bwynt arwyddocaol yn hanes yr elusen am byth. Gallwch ddarllen mwy amdano ar dudalen 6.

Fodd bynnag, yn y flwyddyn honno hefyd y newidiodd bywydau pob un ohonom wrth i bandemig COVID-19 effeithio ar y wlad gyfan. Rwyf i, a'm cyd-ymddiriedolwyr, yn dal i ryfeddu at y ffordd yr aeth ein tîm arbenigol ati i ail-gynllunio gwasanaethau clinigol pwrpasol, amlddisgyblaethol, a hynny mor gyflym, er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael o hyd i fabanod a phlant â pharlys yr ymennydd.

Fel elusen sydd fel arfer yn cael mwy na thri chwarter o'i chyllid o ffynonellau gwirfoddol ac elusennol, cafodd y pandemig effaith andwyol iawn ar ein sefyllfa ariannol yn ystod y 12 mis canlynol, a bydd yn parhau i gael effaith ar ôl hynny, yn anochel.

Serch hynny, er gwaethaf yr heriau anarferol roeddem yn eu hwynebu o fis Mawrth 2020 ymlaen, cafwyd nifer o achlysuron a cherrig milltir y dylid eu dathlu hefyd yn ystod y flwyddyn dan sylw. Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen am yr achlysuron hyn ar y tudalennau nesaf.

Yn ogystal â chwblhau ein cais i Lywodraeth Cymru, treuliwyd cryn dipyn o amser yn 2019-20 yn gwerthuso pob agwedd strategol ar yr elusen, ac yn ystod hydref 2019, gwnaethom ddechrau ar daith, yn seiliedig ar adborth gan ein rhanddeiliaid, a fyddai'n ein tywys at newid enw'r elusen a diweddaru'r brand ym mis Mai 2020.



Dyna'r rheswm ein bod wedi newid i Cerebral Palsy Cymru. Gallwch ddarllen mwy am adborth ein rhanddeiliaid a'r broses ymgynghori a arweiniodd at y newid ar dudalen 5.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn hoffi ein henw a'n brand newydd, gan wybod mai'r un sefydliad ydym yn y bôn - yn gweithio'n angerddol a brwdfrydig, fel y gwnaeth y rhieni a sefydlodd yr elusen yn wreiddiol, i wella ansawdd bywyd i blant a theuluoedd sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.

Rwy'n hynod falch o'r hyn a gyflawnwyd gan yr elusen yn 2019-20, a'r hyn y mae wedi ei wneud ers hynny, er gwaethaf yr heriau anferth mae pob un ohonom wedi eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig byd-eang. Er y bydd mwy o gyfnodau heriol i ddod heb os, rwy'n siŵr y byddwn ni, fel Cerebral Palsy Cymru, yn parhau i fod yno i'r plant a'r teuluoedd sydd ein hangen ym mhob cwr o Gymru, nawr yn fwy nag erioed.

Ar ran y tîm a'n Bwrdd, hoffwn ddiolch o galon i chi, ein teuluoedd, ein gwirfoddolwyr ymroddedig, ein rhoddwyr a phawb sydd wedi sicrhau, ac sy'n parhau i sicrhau, bod modd i ni gynnal ein gwasanaethau unigryw, sy'n newid bywydau.

Diolch o galon.

**J Frank Holmes**
Cadeirydd



# Neges gan Gyfarwyddwr y Ganolfan

Roedd 2019 yn flwyddyn brysur wrth i ni ddatblygu ein gwasanaethau clinigol a rhoi newidiadau sylweddol strategol ar waith, diolch i arian Rhodd Fawr, a gawsom gan Sefydliad Moondance yn 2017.

Y Rhodd Fawr sydd wedi ysgogi'r newidiadau sylfaenol a'r trawsnewid rydym yn parhau'n benderfynol o'u cyflawni er budd ein plant a'n teuluoedd, ac mae'n parhau i wneud hynny. Roedd y rhodd hon yn cynnwys cyfraniad i lansio apêl am arian cyfalaf, a fyddai'n rhoi arian cyfatebol i ni er mwyn cefnogi ein cais i raglen Buddsoddi mewn seilwaith GIG Cymru Llywodraeth Cymru i'n helpu i gyflawni ein strategaeth. Ym mis Tachwedd 2019, clywsom fod ein cais wedi bod yn llwyddiannus a'n bod wedi cael grant o £1.5M.

O ganlyniad i hyn, byddai'n bosibl i ni gael adeilad a fyddai'n addas at ddibenion darparu'r gwasanaethau roeddem wedi eu cynllunio i blant a theuluoedd sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd. Hoffem ddiolch o galon i Sefydliad Moondance a Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth.

Wedyn daeth y pandemig ar ein gwarthaf, a bu'n rhaid i ni gau drysau ein canolfan blant ar Park Road ddydd Llun 23 Mawrth 2020 am sawl wythnos. Dyma'r tro cyntaf ers bron i dri degawd nad oedd modd i ni gynnal ymyriadau wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, ni wnaethom roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau, gan fanteisio ar y ffaith ein bod yn wasanaeth bach, ystwyth i newid ac addasu'n gyflym.

Aeth ein tîm therapi pwrpasol ati'n gyflym i addasu ein gwasanaethau sydd, oherwydd eu natur, fel arfer yn cael eu darparu wyneb yn wyneb. Aeth ein gwasanaeth cymorth i deuluoedd ar-lein, a gwnaethom dreulio amser yn cysylltu â theuluoedd ac yn dod i ddeall eu hanghenion, gan roi cyngor a thawelwch meddwl ar-lein. Bu'r cysylltiad hwn â theuluoedd yn ddefnyddiol i ni wrth gynllunio a blaenoriaethu ein hymyriadau.



Yn ogystal â chael effaith eithriadol ar ein teuluoedd a'n gwasanaethau, roedd y cyfyngiadau symud hefyd yn golygu y bu'n rhaid i'n siopau elusen gau eu drysau, a pharhau ar gau am fwy na thri mis. Ar yr un pryd, bu'n rhaid i ni ganslo'r digwyddiadau, y gweithgareddau codi arian cymunedol a'r heriau niferus a oedd gennym ar y gweill. Yn fuan iawn, newidiodd ein ffocws er mwyn i ni ganolbwyntio ar gynnal yr elusen a sicrhau sefydlogrwydd ariannol o dan amgylchiadau heriol iawn. Hoffem ddiolch o galon i'r tîm a aeth gam ymhellach i gyflawni hyn. Rydym yn falch bod y sefydliad wedi goroesi, a hefyd wedi llwyddo i barhau i gynnal prosiectau pwysig megis yr adeilad newydd, y brand newydd, a Chofrestr Parlys yr Ymennydd Cymru.

Hoffem hefyd ddiolch i'n cyd-weithwyr yn y gymuned, ein ffrindiau a'n cefnogwyr sydd wedi rhoi help llaw i ni yn ystod y cyfnod heriol hwn, yn ogystal â'n tîm staff a'n hymddiriedolwyr sydd wedi gweithio'n galed i gyflawni cymaint yn ystod y flwyddyn ac ers hynny.

Am ein bod yn deall.

Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.

**Jennifer Carroll MA MCSP PGC(HE)**
Cyfarwyddwr y Ganolfan



# Trawsnewid ein brand ac edrych tuag at y dyfodol

Yn ystod hydref 2019, cynhaliwyd ymgynghoriad â'n staff, ein hymddiriedolwyr, ein teuluoedd, ein gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr am enw ein helusen, sef 'Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru' a'n brand presennol. Roeddent yn cytuno ein bod yn sefydliad cadarnhaol a gofalgar sy'n grymuso pobl, ac yn sicrhau bod teuluoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth glir o gwmpas ein gweithgareddau – hynny yw ein bod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer parlys yr ymennydd yng Nghymru ac yn wasanaeth hanfodol.




Gyda chymorth a gwybodaeth arbenigol gan ‘Digital Wonderlab’ and ‘Rednine’, gwnaethom ddechrau ar y broses a fyddai'n arwain at newid o 'Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru' i 'Cerebral Palsy Cymru.'

Crëwyd ein henw a'n hunaniaeth brand newydd i adlewyrchu ein harbenigedd ym maes parlys yr ymennydd, ein gwreiddiau yng Nghymru, ac yn bwysicach byth i sicrhau y gall teuluoedd sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd ddod o hyd i ni yn hawdd.




Bydd dull Bobath o weithredu yn parhau i lywio ein gwaith, am ei fod yn darparu'r fframwaith sy'n tywys ein rhesymegu clinigol. Ond, mae angen i ni gydnabod ein bod wedi datblygu dros y 28 mlynedd diwethaf, a'n bod bellach yn cynnig gwasanaethau sy'n cynnwys arferion clinigol arweiniol ychwanegol.

Bydd ein therapyddion yn parhau i gael hyfforddiant Bobath; ond rydym wedi newid pethau i gadw Bobath yn sylfaen i ni, ond i sicrhau bod parlys yr ymennydd yn arwain ein gwasanaethau.

Lansiwyd ein brand newydd ar 25 Mai 2020, yng nghanol argyfwng y coronafeirws. Nid y lansiad crand roeddem wedi ei ragweld wrth ddechrau ar y broses ail-frandio yn ôl yn hydref 2019 oedd hwn. Ond, yr hyn sy'n bwysig yw ei fod wedi digwydd, er mwyn i ni allu cynnig cymorth gwell i deuluoedd yng Nghymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.

**Am ein bod yn deall. Mae ein hangen ar bobl yn fwy nag erioed.**

# Cartref newydd i'n helusen


Ym mis Tachwedd 2019, diolch i gefnogaeth hael gan Lywodraeth Cymru a Sefydliad Moondance, gwnaethom gyhoeddi ein bod wedi llwyddo i gael cyllid i brynu a datblygu adeilad newydd a fydd yn gartref i ni yn y dyfodol.

Bydd ein safle newydd yn ein galluogi i ehangu fel elusen a chynnig ein gwasanaethau i fwy o blant a'u teuluoedd.

O ganlyniad i'r prosiect £2.7M hwn, ar ôl i'n canolfan blant newydd gael ei hadnewyddu'n llawn, bydd wyth ystafell therapi hanfodol ynddi, gan gynnwys ystafell therapi byw'n annibynnol, ac ystafell cymorth i deuluoedd arbennig. Bydd yr ardal i fyny'r grisiau yn cynnig lle i swyddfeydd ac ardaloedd addysgu.

Dywedodd Vaughan Gething, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: "Mae Cerebral Palsy Cymru (Bobath Cymru gynt) yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i blant sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd, ac mae'n darparu cymorth hanfodol i deuluoedd. Bydd y buddsoddiad yn arwain at well gofal i gleifion a gwell profiad i deuluoedd."

Ar ôl bod yn gweithio yn ein canolfan therapi ar Park Road ers bron i 30 mlynedd, mae'r broses o symud i ganolfan newydd yn fan cychwyn i'n cynlluniau ehangu newydd a chyffrous. Bydd ein canolfan blant newydd yn cynnig potensial enfawr i ni i dyfu yn y dyfodol, ac rydym yn edrych ymlaen at weld yr hyn sydd ar ddod i ni fel elusen.




Argraff arlunydd o canolfan blant newydd

# Y wybodaeth ddiweddaraf am therapi

Roedd y flwyddyn rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 yn brysur iawn ac yn gyffrous i'n tîm therapi. Cafodd 1,775 o sesiynau therapi eu cynnal, gan wneud gwahaniaeth i 316 o blant ledled Cymru sydd â pharlys yr ymennydd, neu yr amheuir bod parlys yr ymennydd arnynt.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd ein tîm therapi wasanaethau i 126 o blant yn eu hardaloedd eu hunain ym mhob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'r sesiynau hyn yn bwysig iawn am eu bod yn rhoi cyfle i ni ddarparu therapi i blant na allant deithio i'n canolfan therapi. Maent hefyd yn caniatáu i ni helpu i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â therapyddion cymunedol a gweithio'n agos â nhw.

Eleni lansiwyd Dechrau Gwell gyda'n Gilydd, sef grŵp chwarae misol sy'n cael ei hwyluso gan therapi. Nod y grŵp yw rhoi cyfle i deuluoedd â babanod neu blant bach hyd at 2½ oed gwrdd â theuluoedd eraill sy'n wynebu heriau tebyg i'w rhai nhw eu hunain. Mae'r sesiynau grŵp chwarae yn rhoi cymorth i deuluoedd i ddysgu sut i chwarae gyda'u plentyn drwy wahanol brofiadau synhwyraidd, a chyfle i'r plant gymdeithasu â'i gilydd. Gall y rhieni a'r gofalwyr sgwrsio â'i gilydd dros baned yn ogystal â gofyn unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt i Glenys neu aelodau o'r tîm therapi.

Diolch i gyllid a gafwyd gan Plant mewn Angen eleni, roeddem yn gallu cynnal dau grŵp, gyda phum person ifanc rhwng 10 a 18 oed ym mhob un, i gael 10 o sesiynau bore a oedd yn cynnwys sesiynau therapi un i un a gweithgareddau grŵp. Cynlluniwyd y grwpiau yn arbennig i bobl ifanc ag anableddau mwy cymhleth. Thema un grŵp oedd 'Y Mil Noswaith' a 'Noson yn yr Amgueddfa' oedd y llall. Cafodd y bobl ifanc fudd mawr o'r cyfle i gymdeithasu â'i gilydd, ac i gystadlu â'i gilydd.

Yn rhyngwladol, bu ein tîm therapi yn chwarae rolau allweddol mewn nifer o gynadleddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol mewn meysydd tebyg.









I

Ym mis Mai 2019, aeth Jenny Carroll (Cyfarwyddwr ein Canolfan) ynghyd â Dr Sally Jary, Melissa Walk-ley, Dawn Forbes, Helen Burnford a Therese Millar i gynhadledd 2019 Academi Anabledd Plant Ewrop (EACD) ym Mharis. Cyflwynodd Melissa ei phoster 'What dose? Finding a model of care for meaningful change in children with Cerebral Palsy.' Cyflwynodd Jenny weithdy pennu nodau i Bwyllgor Addysg Proffesiynol Byd-eang Cynghrair Ryngwladol yr Academïau Anabledd Plant (IAACD) (Consortiwm Addysg Pediatreg Byd-eang, GPEC), ac roedd Therese yn bresennol yn rhinwedd ei rôl fel Trysorydd EACD.

Ym mis Medi 2019, aeth Dawn a Jenny i gynhadledd Cynghrair Ryngwladol yr Academïau Anabledd Plant (IAACD) yn Anaheim, UDA. Cyflwynodd Dawn boster a luniwyd gan ein therapydd Nicole McGrath, sef 'Using video self-modelling to improve occupational performance' ac aeth Jenny i gyfarfod y GPEC a chyflwynodd boster a luniwyd ar y cyd â Dr Rachel Lindoewood ar 'Gofrestr Parlys yr Ymennydd Cymru'.

Yn olaf, ym mis Hydref, aeth Jenny i Tblisi i gynnal gweithdai dilynol ar ran y GPEC ar y cyd â'r Athro Bernard Dan (o Wlad Belg) a'r Athro Mintaze Kerem Gunei (o Dwrci).

Ym mis Ionawr 2020, gwnaethom ffarwelio â Nicole McGrath (un o'n Therapyddion Galwedigaethol) am ei bod wedi dychwelyd i Awstralia. Bu'n chwarae rôl werthfawr tu hwnt yn y tîm am y ddwy flynedd y bu'n gweithio gyda ni, ac mae ei chydweithwyr a'i ffrindiau ym Cerebral Palsy Cymru yn gweld ei heisiau yn arw.

Aeth Dawn, Jenny a Rina Van Der Walt i gyfarfod gwyddonol blynyddol Academi Anabledd Plant Prydain (BACD) a gynhaliwyd yn Sheffield ym mis Mawrth 2020, sef ein taith olaf cyn i'r cyfyngiadau symud ddod i rym.

Mae gweithio gyda'n cyd-weithwyr yn Glasgow a Llundain bob amser wedi bod yn bwysig i ni, ac roedd yn hyfryd bod aelodau o'n tîm therapi wedi cael y cyfle y llynedd i gyfarfod à chyd-weithwyr ym maes therapi o Bobath Scotland (sef Cerebral Palsy Scotland bellach) dros ddeuddydd a hanner.









Roedd yn wych cael sgwrsio eto â'r tîm yn Glasgow sy'n rhannu ein nodau a'n gweledigaeth o wneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.

Yn olaf, roeddem wrth ein bodd yn gallu cynnal cwrs Ymyrraeth Gynnar ac Asesiadau i Fabanod a phlant ifanc sy'n wynebu risg uchel o broblemau niwroddatblygiadol yn ein canolfan blant newydd ym mis Chwefror 2020.

Mae'r cwrs hwn yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o asesu ac ymyrryd yn gynnar o'r adeg y caiff baban ei eni hyd at 12 mis oed. Mae'n cynnwys dull EI SMART er mwyn darparu dealltwriaeth drylwyr o ryngweithiadau synhwyraidd, echddygol a sylw'r baban, a rhyngweithiadau rhwng y rhieni a'r baban yn ystod blwyddyn gyntaf ei fywyd, a sut y gellir sicrhau bod y rhyngweithiadau hyn yn rhan o'n dull gweithredu er mwyn gwneud yn siŵr bod ymyrraeth gynnar mor effeithiol â phosibl. Christine Barber a Dr Betty Hutchon oedd yn arwain y cwrs, gyda chymorth gan Dr Sally Jary, Jenny Carroll, Rina Van Der Walt, Marissa Mount a Gosia Jon-Dare.

Mae'n rhaid cyfaddef, wrth i'r flwyddyn ariannol hon ddod i ben a ninnau'n gorfod rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau wyneb yn wyneb ar 23 Mawrth o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol, gallai pandemig y Coronafeirws fod wedi taflu'r holl bethau cadarnhaol a gyflawnwyd gennym eleni i'r cysgod yn hawdd. Ond ni ddigwyddodd hynny, ac rwy'n falch iawn o bopeth a gyflawnwyd gennym fel tîm.

**Am ein bod yn deall.**
**Mae pob cam yn gyflawniad.**



**Therese Millar**
**Rheolwr y Tîm Therapi**



# Y wybodaeth ddiweddaraf am godi arian

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bob unigolyn a phob sefydliad a fu'n ein cefnogi rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

Yn ystod y flwyddyn, daeth 23.5% o'n hincwm (ac eithrio'r grant eithriadol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a nodir isod) o Fyrddau Iechyd y GIG yng Nghymru, a daeth 76.5% o incwm gwirfoddol a gweithgareddau codi arian a manwerthu gan gynnwys digwyddiadau, gweithgareddau cymunedol, rhoddion unigol a rhoddion mewn ewyllysiau. Mae hyn yn golygu na fyddai ein gwaith wedi bod yn bosibl heblaw am garedigrwydd nifer mawr o bobl a sefydliadau – diolch i chi am hynny!

Gyda'n gilydd, diolch i'n cwsmeriaid, ein gwirfoddolwyr, ein staff a phob un ohonoch sydd wedi rhoi eich eitemau ail-law, cyfrannodd ein siopau elusen dros £514,000 yn ystod y cyfnod o 12 mis, a oedd yn golygu eu bod yn gyfrifol am dros draean o gyfanswm ein cyllid refeniw. Mae hyn yn anhygoel o feddwl bod llawer o'r eitemau mewn siopau elusen ond yn costio ychydig bunnoedd.

Roedd 2019-20 yn flwyddyn eithriadol iawn i ni hefyd am ein bod wedi cael grant o £1.5M drwy raglen Buddsoddi mewn seilwaith GIG Cymru Llywodraeth Cymru, sy'n golygu ein bod wedi gallu prynu canolfan blant newydd, fwy ym mis Mawrth 2020.

Hoffem ddiolch i Sefydliad Moondance, Plant mewn Angen, Sefydliad Garfield Weston, Sefydliad Hodge a rhaglen Arian i Bawb Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, i enwi ond rhai o'r ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol a roddodd gymorth dyngarol i gefnogi ein gwaith gyda phlant a theuluoedd sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd ledled Cymru.

Ac wrth gwrs, bu ein partneriaid corfforaethol, o unig fasnachwyr i sefydliadau mawr, rhyngwladol, yn chwarae rôl allweddol yn ein gwaith codi arian hefyd. Roeddem yn falch iawn o ddechrau partneriaeth newydd gyda chwmni Cyfreithwyr Slater & Gordon, gyda'r cwmni hwnnw'n gweithredu fel prif noddwr ein gwasanaeth Ymgynghori Cychwynnol hollbwysig.












Diolch i gefnogaeth arbennig y cwmni hwn, dros y 12 mis diwethaf rydym wedi llwyddo i wneud gwahaniaeth sy'n newid bywyd i 40 o fabanod ledled Cymru y mae parlys yr ymennydd arnynt, neu yr amheuir bod parlys yr ymennydd arnynt.

Gwnaeth ein cefnogwyr corfforaethol ein helpu i godi cyfanswm o dros £97,000 eleni. Daeth nifer o gwmnïau at ei gilydd i gyrraedd y cyfanswm anhygoel hwn, er y dylid diolch yn arbennig i Merthyr South Wales, Sefydliad Morrisons, Mowgli Street Food Caerdydd, Banc Barclays, cwmni Cyfreithwyr Harding Evans, PG Insurance, cwmni Cyfreithwyr Hugh James a Western Power Distribution.

Mae ymgyrchoedd a digwyddiadau codi arian yn chwarae rôl bwysig iawn yn ein calendr codi arian bob amser. Ymhlith uchafbwyntiau 2019-20 roedd: Dawns yr Ardd Hud a gynhaliwyd yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd a gododd dros £21,000; Pobi dros Bobath 2019 a gododd £10,440 gyda mwy nag 20 o ysgolion, busnesau a grwpiau cymunedol yn cymryd rhan ledled Cymru; sioe ceir 'Motors at Mamhilad' a drefnwyd gan y teulu Gould a lwyddodd i godi £10,000 mewn penwythnos; ein digwyddiad Gwneud Torchau Nadolig cyntaf erioed; ein Her Nadolig Rhoi Mawr, a'n helpodd i godi £13,129 mewn 7 diwrnod, diolch i Gyfeillion Bobath Cymru ac yn arbennig ein cefnogwr ers tro, Derek Redwood o CHP Accountants, a ddyblodd roddion pobl eraill.

At ei gilydd, gwnaeth 720 o unigolion a sefydliadau roi arian i ni fel elusen yn ystod y flwyddyn, naill ai ar ffurf rhodd untro neu ar ffurf rhodd reolaidd. Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch o galon o bob un ohonoch am ein helpu i barhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a theuluoedd ledled Cymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.

Am ein bod yn deall.
Mae eich cymorth yn gwneud gwahaniaeth.



**Rachel Morgan**
**Pennaeth Cynhyrchu Incwm**












# Dadansoddiad o incwm a gwariant

## Incwm
## £2,901,541



Incwm codi arian £519,384
Manwerthu £514,436
Byrddau Iechyd £329,954
Arall £37,767
Grant Llywodraeth Cymru £1,500,000

## Gwariant
## £1,782,187



Darparu therapi £900,166
Manwerthu £351,930
Codi arian £301,622
Arall £228,469

Yn ogystal â'r incwm a restrwyd uchod, cawsom incwm mewn blynyddoedd blaenorol a bennwyd i ariannu gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac felly rydym wedi defnyddio'r cronfeydd wrth gefn perthnasol i dalu am hyn.


# Diolch

I bawb sydd wedi ein helpu i wneud gwahaniaeth sy'n newid bywyd i blant a theuluoedd ledled Cymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.
Fel elusen, daw 75% o'n hincwm o weithgarwch codi arian.

Yn syml iawn, ni fyddai'n bosibl i ni barhau i ddarparu ein gwasanaethau hanfodol hebddoch chi.

Cerebralpalsycymru.org/donate-to-help





"O'r cychwyn cyntaf, roeddwn ni'n teimlo fel rhan o'r teulu. Pan wnaethon ni ddechrau, doeddwn ni ddim yn siŵr a fyddai Eddie byth yn gallu eistedd neu hyd yn oed droi drosodd. Ond nawr, saith mis ar ôl i ni ddod i Cerebral Palsy Cymru am y tro cyntaf, mae Eddie yn cropian fel comando!"

Eliska, mam Eddie.

# Am ein bod yn deall.

# Gyda'n gilydd, gallwn wneud gwahaniaeth.

**Cerebral Palsy Cymru**
1 Y Cwrt
Rhodfa Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DX

02920 522 600
info@cerebralpalsycymru.org

Cerebralpalsycymru.org
Twitter @CP_Cymru
Facebook.com/CerebralPalsyCymru

Rhif Elusen: 1010183
Rhif Cwmni Cyfyngedig: 02691690

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

**Ymddiriedolwyr**
Frank Holmes
Christine Barber
Caroline Cooksley
Ieuan Coombes
Martin Gush
Stephen Jones
Paul Lubas
Marie Wood

**Archwilwyr**
Clifton House Partnership,
Clifton House, Four Elms Road, Caerdydd CF24 1LE

**Bancwyr**
Banc Barclays plc, Heol Dewi Sant, Caerdydd, CF10 2DP